**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**7 MAWRTH 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher, 7 Mawrth 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Ian Dunbar a Billy Mullin.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Datblygu, Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Uwch Gynllunwyr, Uwch Gyfreithiwr a Swyddog Pwyllgorau.

**63. DATGAN CYSYLLTIAD**

Mewn perthynas ag eitem rhif 6.1 (rhif cais 057689), datganodd y Cynghorydd Mike Peers gysylltiad personol sy'n rhagfarnu gan mai ef yw Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Elfed. Eglurodd ei fod, yn dilyn goddefeb a ganiatawyd yn y Pwyllgor Safonau, wedi cael caniatâd i siarad am bum munud. Byddai wedyn yn gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais. Ar yr un eitem, datganodd y Cynghorwyr Ellis a Phillips gysylltiad personol sy'n rhagfarnu gan eu bod yn Llywodraethwyr yn Ysgol Elfed. Dywedodd Cynghorydd Ellis y byddai'n siarad am dri munud ac yna'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais. Dywedodd Cynghorydd Phillips na fyddai'n siarad ar yr eitem ond y byddai ef hefyd yn gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais.

Ar eitem rhif 6.2 (cais rhif 057808), datganodd y Cynghorydd Christine Jones gysylltiad personol sy'n rhagfarnu gan fod safle'r cais y tu ôl i'w heiddo hi. Dywedodd y byddai'n siarad am dri munud ac yna'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais.

Ar eitem rhif 6.3 (cais rhif 057898) datganodd y Cynghorwyr Butler a Thomas gysylltiad personol gan eu bod yn derbyn pensiwn. Datganodd y Cynghorwyr Ellis a Peers hefyd gysylltiad personol yn yr eitem hon gan fod aelodau o'u teuluoedd yn gweithio i Airbus.

Ar eitemau rhif 6.4 (rhif cais 057514) a 6.5 (rhif cais 057295) datganodd Cynghorydd Peers gysylltiad personol sy'n rhagfarnu oherwydd ei fod yn aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Hawkesbury sydd ger safle'r cais. Eglurodd ei fod, yn dilyn goddefeb a ganiatawyd yn y Pwyllgor Safonau, wedi cael caniatâd i siarad am bum munud ar y ddau gais. Byddai wedyn yn gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais ar y ddau gais. Datganodd y Cynghorydd Ellis hefyd gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn yr

un eitemau gan ei bod hi hefyd yn aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Hawkesbury, ac roedd ganddi ganiatâd i siarad am dri munud. Byddai hi hefyd wedyn yn gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais.

**64. SYLWADAU HWYR**

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a ddosbarthwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hychwanegu at y rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/documents/s47879/Late%20Observations.pdf?LLL=0

**65. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2018. Roedd y Cynghorydd Dave Hughes wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod ond nid oeddent wedi eu cofnodi.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

**66. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Nododd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) nad oedd y swyddogion wedi argymell y dylid gohirio unrhyw rai o'r eitemau ar y rhaglen.

**67. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)**

**PENDERFYNWYD:**

Y dylid cofnodi penderfyniadau fel y dangosir yn yr amserlen Ceisiadau Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

**68. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG OEDD YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 15 aelod o'r cyhoedd a neb o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.33pm)

…………………………
**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 7 IONAWR 2018**

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 057689 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn - Codi 4 annedd ar wahân yn Dovedale, Ffordd Alltami, Bwcle. | Siaradodd F. Hynes, preswylydd lleol, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd yr Asiant, Mr S Goodwind, o blaid y cais<br><br>Wedi datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu, roedd gan y Cynghorydd Ellis yr hawl i siarad am dri munud ac roedd y Cynghorydd Peers wedi cael goddefeb i siarad am 5 munud. Ar ôl siarad gadawodd y ddau yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais.<br>Ni siaradodd Cynghorydd Phillips a gadawodd yntau'r ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais. | Y dylid rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar gwblhau cytundeb A106 ymlaen llaw, neu ymrwymiad unochrog, neu daliad cynharach ar gyfer:<br>• Darpariaeth man agored – £1,100 fesul annedd er mwyn gwella arwyneb y cae chwarae cymunedol ger Cheshire Lane, Ysgol Uwchradd Elfed, Bwcle.<br>• Darpariaeth addysg - £12,259 – ysgol gynradd – tuag at Ysgol Gynradd Lon y Mynydd; a<br>• Tir lliniaru - £1,000 fesul annedd i oroesi effeithiau anuniongyrchol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer rheolaeth hirdymor y tir lliniaru.<br><br>Yn unol ag argymhellion y swyddog a'r amodau a restrir yn ei adroddiad.<br><br>Hefyd, yr amod ychwanegol fel y'i argymhellwyd yn y Pwyllgor i lunio cynllun rheoli traffig. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 057808 | Cyngor Cymuned Sealand | Cais am gymeradwyo materion a neilltuwyd, golwg, gosodiad, graddfa, tirlunio a mynediad ar gyfer codi'r 6 annedd yn dilyn caniatâd amlinellol (052887) yn 31 Ffordd Cymru, Garden City. | Siaradodd Mr N. Williams, yr ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Wedi datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu, roedd gan y Cynghorydd Christine Jones hawl i siarad am dri munud. Gadawodd yr ystafell ar ôl siarad â chyn y drafodaeth a'r bleidlais. | Y dylid rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057898 | Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton | Cais Llawn – Codi Cyfleuster Sefydliad Gweithgynhyrchu ac Ymchwil Uwch yn Airbus, Ffordd Caer, Brychdyn. | | Y dylid rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn adroddiad y swyddog, ac yn unol ag argymhelliad y swyddog.<br><br>Amod ychwanegol fel y'i amlinellwyd yn y sylwadau hwyr.<br><br>Hefyd, yr amod ychwanegol fel y'i argymhellwyd yn y Pwyllgor i lunio cynllun rheoli traffig. |
| 057514 | Cyngor Tref Bwcle | Cais llawn –codi rheiliau ar hyd y ffin ddeheuol yn Hawkesbury Hall, Mill Lane, Bwcle. | Siaradodd Mr P Watkin, aelod o Theatr Fach Hawkesbury, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Ms P Willoughby, yr ymgeisydd, o blaid y cais. | Y dylid rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn adroddiad y swyddog, ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | Wedi datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu, roedd gan y Cynghorydd Ellis yr hawl i siarad am dri munud ac roedd y Cynghorydd Peers wedi cael goddefeb i siarad am 5 munud. Ar ôl siarad gadawodd y ddau yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais. | |
| 057295 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Adeilad Rhestredig ar gyfer gosod rheiliau ar ffin ddeheuol Hawkesbury Hall, Mill Lane, Bwcle. | Siaradodd Mr P Watkin, aelod o Theatr Fach Hawkesbury, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Ms P Willoughby, yr ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Wedi datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu, roedd gan y Cynghorydd Ellis yr hawl i siarad am dri munud ac roedd y Cynghorydd Peers wedi cael goddefeb i siarad am 5 munud. Ar ôl siarad gadawodd y ddau yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais. | Y dylid rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn adroddiad y swyddog, ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| **Apelio** | | | **Nodwyd.** | |
| 55871 | | Apêl gan Mr P. Edwards yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer gwelliannau ac estyniad i drac fferm, cynllun llawr caled ar gyfer parcio a symud cerbydau, gwella'r cyfleusterau toiled, golchi ac ymolchi, darparu mannau gyda chysylltiad â thrydan ar gyfer ddarpar ymwelwyr (gan gynnwys man gwaredu dŵr llwyd) a thirlunio (ôl-weithredol) yn Fferm Ynys Hir, Ffordd Picton, Picton, Treffynnon.<br>**WEDI'I GANIATÁU** | | |